Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Agricultural Land Tribunal Wales

**Adran 53(1) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986**
**Gorchymyn Tribiwnlysoedd Tir Amaethyddol (Rheolau) 2007**
**Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2020**

# Cais am Gyfarwyddyd sy'n Rhoi Hawl i Denantiaeth Daliad Amaethyddol ar Ymddeoliad y Tenant

## Adran 1 – Gwybodaeth am yr Ymgeisydd

| | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Cyfeiriad (gan gynnwys Cod Post) | |
| Rhif Ffôn | |
| Cyfeiriad E-bost | |

## Adran 2 – Gwybodaeth am yr Ymatebydd (y Landlord(iaid))

| | |
|---|---|
| Enw(au) Llawn | |
| Cyfeiriad(au) (gan gynnwys Cod Post) | |
| Rhif(au) Ffôn: | |
| Cyfeiriad/Cyfeiriadau e-bost | |

## Adran 3 – Manylion Cynrychiolydd yr Ymgeisydd

A oes rhywun yn gweithredu ar eich rhan?

Oes ☐ Nagoes ☐

Os oes, rhowch fanylion eich cynrychiolydd.

| | |
|---|---|
| Enw llawn | |
| Cyfeiriad (gan gynnwys cod post) | |
| Rhif Ffôn | |
| Cyfeiriad E-bost | |
| Proffesiwn | |

☐ Hoffwn i'r Tribiwnlys ohebu a chyflwyno hysbysiadau ynglŷn â'r Cais i'r cynrychiolydd uchod yn hytrach na mi.

## Adran 4 – Ynglŷn â'r Denantiaeth

Mae'r Cais hwn yn codi o ganlyniad i hysbysiad ymddeol dyddiedig __________ a roddwyd gan y Tenant(iaid) i'r Landlord(iaid) ar ________________

Rhoddwyd y Denantiaeth:

☐ cyn 12 Gorffennaf 1984

☐ ar neu ar ôl 12 Gorffennaf 1984 yn rhinwedd cyfarwyddyd y Tribiwnlys Tir Amaethyddol o dan adran 39 neu 53 o Ddeddf 1986

☐ ar neu ar ôl 12 Gorffennaf 1984 yn dilyn cyfarwyddyd y Tribiwnlys Tir Amaethyddol o dan adran 39 o Ddeddf 1986 ond a gychwynnwyd cyn yr amser perthnasol at ddibenion adran 45 o'r Ddeddf honno

☐ ar neu ar ôl 12 Gorffennaf 1984 gan gontract tenantiaeth ysgrifenedig sy'n nodi (o dan unrhyw delerau) y dylai'r darpariaethau olyniaeth yn Rhan IV o Ddeddf 1986 fod yn gymwys i'r denantiaeth

☐ ar neu ar ôl 12 Gorffennaf 1984 i berson sydd, yn union cyn y dyddiad hwnnw, yn denant i'r daliad neu unrhyw ddaliad amaethyddol a oedd yn cynnwys y cyfan neu ran sylweddol o'r tir a gynhwysir yn y daliad, o dan denantiaeth y mae Deddf 1986 yn berthnasol iddi

| | |
|---|---|
| Landlord: | |
| Cyfeiriad y Landlord: | |
| Tenant: | |
| Cyfeiriad y Tenant: | |

Mae blwyddyn gyfredol y denantiaeth yn dod i ben ar _____________

## Adran 5 – Ynglŷn â'r Daliad

| | |
|---|---|
| Enw'r Daliad: | |

Rhowch fanylion llawn y tir a'r adeiladau gan gynnwys yr arwynebedd, rhifau'r Arolwg Ordnans a darparwch ddau gopi o gynllun y Daliad ar raddfa 1:10,000 neu fwy.

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Rhent Blynyddol: | £ |

A yw'r Daliad yn destun Cytundeb Tenantiaeth ysgrifenedig?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, darparwch gopi o'r Cytundeb Tenantiaeth

A yw'r Daliad yn rhan o uned amaethyddol fwy?

Ydy ☐ Nac ydy ☐

Os ydy, rhowch fanylion yr uned amaethyddol fwy gan gynnwys yr arwynebedd, rhifau'r Arolwg Ordnans a darparwch ddau gopi o gynllun ar raddfa 1:10,000 neu fwy.

| |
|---|
| |

## Adran 6 – Ynglyn â'r Ymgeisydd

Cefais fy ngeni ar ______________

Fi yw'r olynydd a enwebwyd yn yr Hysbysiad Ymddeol.

Ie ☐ Na ☐

Fy mherthynas â'r Tenant yw gwraig / gŵr / partner sifil / brawd / chwaer / plentyn (dileu fel y bo'n briodol)

neu

Rwy'n cael fy nhrin gan y Tenant fel plentyn i'r teulu mewn perthynas â phriodas / Partneriaeth Sifil y tenant i ____________________ ar _____________ (dyddiad) (dileu fel y bo'n briodol)

## Adran 7 – Bywoliaeth

Rwy'n bodloni'r prawf bywoliaeth yn adran 50(2)(a) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986.

Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

Yr wyf yn dibynnu ar adran 50(4) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 (addysg bellach)

Ydwyf ☐ Nac ydwyf ☐

Rhowch gopïau o'r holl dystiolaeth y dibynnwyd arni i'r Tribiwnlys, gan gynnwys cyfrifon fferm a gwybodaeth ariannol berthnasol arall.

Defnyddiwch y blwch isod i fanylu ar unrhyw wybodaeth ariannol nad yw'n cynnwys y dogfennau a ddarperir i'r Tribiwnlys a/neu unrhyw esboniad pellach sydd ei angen.

Yn ystod y cyfnod sy'n berthnasol i'r Cais hwn rwyf wedi cael ffynhonnell(au) bywoliaeth arall.

Do ☐ Naddo ☐

Os do, rhowch fanylion isod a darparwch yr holl ddogfennau perthnasol:

| |
|---|
| |

## Adran 8 – Addasrwydd

Rwy'n honni fy mod yn berson addas i dderbyn tenantiaeth y daliad oherwydd:

| |
|---|
| |

Nodwch yn y blwch uchod yr holl ffeithiau a materion yr ydych yn dibynnu arnynt i gefnogi eich achos bod yr Ymgeisydd yn addas i gael tenantiaeth i'r Daliad: er enghraifft, manylion profiad, hyfforddiant, sgiliau neu brofiad ymarferol mewn amaethyddiaeth, iechyd corfforol, sefyllfa ariannol, ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill, a darparu unrhyw ddogfennau.

## Adran 9 – Hysbysiadau

Rwyf wedi hysbysu'r Landlord am fy nghais i'r Tribiwnlys:

Do ☐ Naddo ☐

## Adran 10 - Datganiad o Wirionedd

**Rydym yn credu bod y ffeithiau a nodir yn y ddogfen hon yn wir.**

| | |
|---|---|
| Enw llawn y tenant sy'n ymddeol | |
| Llofnod tenant sy'n ymddeol | |
| Dyddiad | |
| Enw Llawn yr Ymgeisydd | |
| Llofnod yr Ymgeisydd: | |
| Dyddiad | |